



Mae'r Swyddfa Brisio yn un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau EM

Cyfeiriad:

Rhif Cyfeirnod:

Rhowch y cyfeiriad a'r cyfeirnod yn union fel y dangosir ar y ffurflen neu llythyr gwreiddiol. Os oes angen gwneud unrhyw gywiriadau i'r cyfeiriad, teipiwch y rhain ar wahân yn y blwch cyfeiriad.

Terfyn amser

You must return this form within 56 days from the day you receive it. If you do not return this form within 56 days you will be liable to a penalty of £100 [see paragraph 5A(1) of Schedule 9 to the Local Government Finance Act 1988 ("the Act")].

Sut i gwblhau'r ffurflen hon

Efallai y bydd yn ddefnyddiol cael eich prydles neu eich cytundeb wrth law. Ym mhob rhan o'r ffurflen hon:

- ystyr yr eiddo yw'r eiddo a geir yn y panel cyfeiriad uchod neu unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r dosbarth o eiddo a nodir yn y panel cyfeiriad uchod
- pan fo angen dyddiad, dylech nodi'r union ddyddiad os yw'n hysbys i chi. Os na wyddoch beth yw'r union ddyddiad, cwblhewch y blychau ar gyfer y mis a'r flwyddyn.

Os bydd angen mwy o le amoch ar gyfer unrhyw gwestiwn wrth lenwi'r ffurflen argraffedig hon, gallwch barhau ar ddalen arall o bapur. Cofiwch sicrhau bod unrhyw ddalennau ychwanegol o bapur addefnyddiwyd:

- yn nodi rhif y cwestiwn/cwestiynau perthnasol yn glir
 - I wedi eu llofnodi a'u dyddio, ac
- I wedi eu hatodi'n gadarn i'r ffurflen hon.

Print Bras

Os hoffech fformatau Print Bras, ffoniwch neu e-bostiwch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt gyferbyn.

Mae'r cais hwn am wybodaeth yn hysbysiad a anfonir atoch yn unol â'r pwerau a roddir i'r Swyddog Prisio o dan baragraff 5(1) o Atodlen 9 i'r Ddeddf. Mae'n ofynnol i chi, fel y perchennog neu'r deiliad, ddarparu gwybodaeth am yr eiddo (gweler paragraff 5(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf). Gallech gael eich erlyn os gwnewch ddatganiadau ffug.

Pam mae eich gwybodaeth yn bwysig

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan bob busnes yng Nghymru a Lloegr i osod gwerthoedd ardrethol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhain i gyfrifo biliau ardrethi.

Sail y gwerth ardrethol yw rhent blynyddol yr eiddo pe bai ar gael ar y farchnad agored ar ddyddiad prisio penodol.

Mae darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i gael y gwerth ardrethol cywir ac yn sicrhau y gall eich cyngor lleol gyfrifo cyfraddau busnes cywir ar gyfer eich busnesau.

Sut i gyflwyno'r ffurflen hon

Arbedwch eich PDF gorffenedig a'i anfon fel atodiad e-bost at:

specialist.rating@voa.gov.uk

Credaf y bydd y wybodaeth y gwneir cais amdani yn fy nghynorthwyo i gynnal y swyddogaethau a gyflwynwyd i mi neu a osodwyd arnaf gan neu o dan ran III o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig), gan gynnwys llunio Rhestr Ardrethu newydd neu gynnal Rhestr Ardrethu bresennol.

Mae'r Swyddfa Briso yn Asiantaeth Weithredol Cyllid a Thollau EM Sydd yn Rheolwr Data dan Ddeddf Gwarchod Data. Daliwn wybodaeth at ddibenion trethi, a swyddogaethau penodol statudol eraill fel y'u pennir gan Y Senedd. Gellid defnyddio'r wybodaeth a ddaliwn at unrhyw rai o swyddogaethau Asiantaeth y Swyddfa Briso.

Fe allem gael gwybodaeth amdanoch chi oddi wrth eraill, fel adrannau llywodraethol arall ac asiantaethau ac awdurdodau lleol. Fe allem gymharu'r wybodaeth ni'n derbyn oddi wrthynt ac oddi wrthyich chi, gyda'r hyn sydd yn eu'n cofnodion yn barod.

Fe allem roi gwybodaeth i adrannau llywodraethol arall ac asiantaethau ac awdurdodau lleol, os gwnawn, fe fydd yn unig yn unol a'r modd y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio cywirdeb gwybodaeth, atal a datrys troseddau a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

Cwblhewch y ffurflen mewn inc.

Rhan 1 - Yr eiddo a chi

1.1 At ba ddibenion y defnyddir yr eiddo?

1.2 Ysgrifennwch enw a chyfeiriad y person neu'r cwmni sy'n meddiannu'r eiddo.

Os yw'r eiddo'n wag, rhowch 'gwag' yn y blwch hwn.

1.3 Pryd feddiannodd y person neu'r cwmni yr eiddo gyntaf?

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

1.4 A ydych chi berchen yr eiddo? (nid y busnes yn unig)

Nac ydwyf Ewch i gwestiwn 1.5

Ydwyf Ewch i Ran 14 ar dudalen 9

1.5 Ydych chi'n talu rhent am yr eiddo?

Nac ydwyf Ewch yn syth i Ran 14 ar dudalen 9

Ydwyf Ewch yn syth i Ran 2 a llenwch y gweddill o'r ffurflen hon

Rhan 2 - Eich Landlord

2.1 A fydddech gystal â rhoi enw a chyfeiriad y person neu'r cwmni rydych yn talu rhent iddo.

Enw llawn
Cyfeiriad
Côd post

2.2 A oes gennych gysylltiad â'r landlord?

Nac oes

Oes Ym mha fodd mae gennych chi gysylltiad â'r landlord?

Rhan 1- Nodiadau

Cwestiwn 1.1

Er enghraifft, siop, fflat, ffatri, gweithdy, warws, warws manwerth, bwyty, swyddfa, neu unrhyw gyfuniad.

Os yw'r eiddo'n wag disgrifiwch ei ddefnydd mwyaf tebygol nesaf.

Cwestiwn 1.2

Os yw'r eiddo'n cael ei feddiannu:

- Rhowch enw llawn yn unigolyn neu'r cwmni sy'n meddiannu'r eiddo.

Os oes mwy nag un meddiannwr, a fydddech gystal â nodi enwau'r cyfan ohonynt.

- Os yw'r eiddo'n cael ei feddiannu gan gwmni, rhowch gyfeiriad swyddfa gofrestru'r cwmni, ac enw Ysgrifennydd y Cwmni os ydych yn ei wybod.

Cwestiwn 1.3

Rhowch y dyddiad y bu i chi neu'ch cwmni gymryd yr eiddo ymlaen, hyd yn oed os na fu i chi ddechrau masnachu na thalu rhent o'r dyddiad hwnnw.

Cwestiwn 1.4

At ddibenion y ffurflen hon, rydych yn berchen yr eiddo os ydych

- yn ei berchen yn rhydd-ddaliol a heb dalu rhent, neu
- os oes gennych brydles neu gytundeb ysgrifenedig sy'n parhau am fwy na 60 blynedd ar rent isel.

Cwestiwn 1.5

Ticiwch ydwyf os ydych yn disgwyl talu rhent yn y dyfodol - er enghraifft, rydych ar hyn o bryd mewn cyfnod rhent am ddim.

Rhan 2 - Nodiadau

Cwestiwn 2.1

A fydddech gystal â rhoi manylion eich landlord, hyd yn oed os ydych yn talu rhent i asiant.

Os nad ydych yn gwybod manylion eich landlord, a fydddech gystal â rhoi manylion eich asiant (gan nodi eu bod yn cyfeirio at yr asiant).

Cwestiwn 2.2

A fydddech gystal â nodi unrhyw gysylltiad. Er enghraifft

- cysylltiad teuluol
- cysylltiad cwmni – er enghraifft, a yw'r cwmni meddiannol yn gwmni daliadol neu'n is-gwmni i'r cwmni landlord?
- n cysylltiad busnes – er enghraifft, a ydych chi a'r landlord yn bartneriaid busnes?

Rhan 3 - Eich prydles neu gytundeb

3.1 Pryd cychwynnodd eich prydles neu'ch cytundeb cyfredol?

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

3.2 Am ba mor hir y rhoddwyd y brydles neu'r cytundeb?

Os nad oes gennych gytundeb ysgrifenedig ac mae'r hyd yn benagored, gadewch flychau'r 'blynyddoedd' a'r 'misoedd' yn wag a thiciwch yma

3.3 Pa fath o gytundeb sydd gennych chi?

Dim cytundeb, neu un nad yw'n ysgrifenedig Ewch i Ran 5

Prydles neu gytundeb tenantiaeth

Trwydded neu fath arall o gytundeb ysgrifenedig

Rhan 4 - Adolygiadau Rhent

4.1 A yw'ch prydles neu'ch cytundeb yn darparu ar gyfer adolygiadau rhent?

Nac ydyw Ewch yn syth i Ran 5

Ydyw A fydddech gystal â rhoi manylion isod

a. Ar ba gyfnodau yr adolygir y rhent?

Blynyddoed	Misoedd
------------	---------

b. Pryd oedd y dyddiad adolygu diwethaf?

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

c. A all y rhent gael ei **ostwng** ar adolygiad? Na all Gall

4.2 A yw'r rhent ddangosir yn 3.1 yn ganlyniad arolwg rhent?

Nac ydyw Ewch yn syth i Ran 5

Ydyw A fydddech gystal â rhoi manylion isod

a. Pryd oedd yr adolygiad rhent hwn?

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

b. Sut sefydlogid y rhent yn yr adolygiad rhent?

Rhyngoch chi (neu'ch asiant) a'r landlord, heb gyfranogiad neb arall

Gan rywun yn gweithredu'n benodol fel cymrodeddwr yn unol â'r Deddfau Cymrodeddu

Gan arbenigwr annibynnol (hwyrach syrfêwr siartredig)

Rhan 5 - Sut cafodd eich rhent ei osod os nad drwy Adolygiad

5.1 Sut y cafodd eich rhent ei bennu?

Rhyngoch chi (neu'ch asiant) a'r landlord, heb gyfranogiad neb arall.

Rhent cyfamserol osodwyd gan lys dan Ddeddfau'r Landlord a'r Tenant (hynny yw, rydych yn aros am ddedfryd derfynol o'r llysoedd)

Dyfarniad terfynol gan lys (oherwydd i'ch prydles neu'ch cytundeb orffen ac ni allech gytuno gyda'r landlord delerau cytundeb newydd os bydddech yn aros yn yr eiddo)

5.2 A osodwyd y rhent gan –

brydles neu gytundeb newydd

brydles adnewyddedig

drafodion gwerthiant ac ôl-brydles

ildiad ac adnewyddiad?

Rhan 3 - Nodiadau

Cwestiwn 3.1

Fel arfer rhoddir y dyddiad hwn yn ychydig baragraffau cyntaf prydles neu gytundeb ysgrifenedig. Er enghraifft, 'Mae'r cyfnod o 24 Gorffennaf 1994' neu 'Mae cyfnod y brydles o 24 Gorffennaf 1994'.

Os bu i chi gymryd drosodd neu brynu'r brydles neu'r cytundeb oddi wrth rywun arall, rhowch y dyddiad y cychwynnodd y brydles/cytundeb ac nid y dyddiad y bu i chi gymryd drosodd yr eiddo.

Cwestiwn 3.2

Mae ychydig baragraffau cyntaf prydles neu gytundeb ysgrifenedig fel arfer yn rhoi ei hyd. Er enghraifft, 'Mae'r cyfnod am 25 mlynedd' neu 'Cyfnod y brydles yw 25 mlynedd'.

Cwestiwn 3.3

Bydd eich dogfennaeth yn nodi'r math o gytundeb sydd gennych.

Rhan 4 - Nodiadau

Cwestiwn 4.1

Achlysuron yn y brydles neu'r cytundeb yw adolygiadau rhent pan all landlord newid y rhent.

Cwestiwn 4.1a

Bydd eich prydles neu'ch cytundeb yn dweud pa mor aml y gall y landlord newid y rhent. Er enghraifft, bob 5 mlynedd mewn prydles 20 mlynedd.

Cwestiwn 4.1b

Cofnodwch ddyddiad yr adolygiad diwethaf, hyd yn oed os na newidodd eich rhent yn yr adolygiad hwnnw.

Cwestiwn 4.1c

Bydd yn eich prydles neu'ch cytundeb gymal penodol yn dweud a all y rhent ostwng yn ogystal â chynyddu. Er enghraifft, gallai ddweud bod yr adolygiad i'r uchaf o'r rhent cyfredol neu rent y farchnad, sy'n golygu y gall y rhent gynyddu ond nid gostwng.

Ticiwch 'nac ydyw' os gall y rhent gynyddu'n unig.

Ticiwch 'ydyw' os gall y rhent gynyddu neu ostwng.

Os oes amoch angen cymorth i amcanrifo beth ddywed y cymal, cysylltwch â'ch Swyddfa Briso leol. Mae'r manylion ar flaen y dudalen hon.

Rhan 5 - Nodiadau

Cwestiwn 5.2

Ticiwch

• **Prydles neu gytundeb newydd** os dechreuodd y rhent rydych yn ei dalu am fod gennych brydles neu gytundeb newydd a chwithau heb feddiannu'r eiddo o'r blaen.

• **Prydles adnewyddol** os dechreuodd y rhent rydych yn ei dalu am fod gennych brydles neu gytundeb newydd a chwithau wedi meddiannu'r eiddo ar unwaith yn gynt dan brydles flaenorol neu gytundeb blaenorol.

• **Trafodion gwerthiant ac ôl-brydles** os bu i chi werthu eiddo roeddech yn flaenorol yn ei berchen ac yn ei feddiannu, ond rydych yn dal yn ei feddiannu ac yn talu rhent i'r perchennog newydd.

• **Ildiad ac adnewyddiad** os bu i chi gytuno â'r landlord i gymryd allan brydles neu gytundeb o'r newydd ar eiddo roeddech yn ei feddiannu, er bod eich prydles bresennol neu'ch cytundeb presennol heb derfynu.

6.1 Ar ba sail y caiff y rhent ei dalu o dan y brydles neu'r cytundeb a bennwyd?

- a) Gwerth ar y farchnad agored Ewch i gwestiwn 7.1
- b) Gwerth ar y farchnad agored (neu werth crogent) + canran o drosiant Ewch i gwestiwn 7.2
- c) Canran o'r gwerth ar y farchnad agored (neu werth crogent) + canran o drosiant Ewch i gwestiwn 7.3
- d) Rhent sylfaenol + canran o drosiant Ewch i gwestiwn 7.4
- e) Canran o drosiant (heb unrhyw isafswm ffigur na rhent sylfaenol) Ewch i gwestiwn 7.5
- f) Rhent 'gris' Ewch i gwestiwn 7.6
- g) Unrhyw sail arall (*megis cyfuniad o'r uchod*) Ewch i Ran 8

Rhowch y manylion isod

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael rhagor o fanylion yn y dyfodol

Ticiwch

(a) 'ceir 'gwerth ar y farchnad agored':

- Os yw eich rhent yn seiliedig ar adolygiad rhent, a bod cymal yn eich prydles neu gyfundeb yn nodi mai'r sail ar gyfer y rhent yw 'gwerth ar y farchnad agored', 'gwerth rhentu ar y farchnad agored', 'y rhent gorau', neu 'werth crogent'.
- Os cytunwyd ar y rhent mewn prydles newydd neu brydles wedi'i hadnewyddu yn rhydd rhyngoch chi (neu eich asiant) a'r landlord (neu ei asiant). Os cynigiodd un parti ffigur a dderbyniwyd gan y llall.
- Os pennodd llys y rhent pan gafodd y brydles ei hadnewyddu.

(b) 'gwerth ar y farchnad agored a chanran odrosiant'

os yw eich rhent yn seiliedig ar unrhyw un o'r sefyllfaoedd yn (a) uchod ac os yw'r brydles yn nodi bod yn rhaid i chi dalu canran o'ch trosiant i'r landlord fel rhent am eich eiddo. Fel arfer mae eiddo a osodir fel hyn i'w gael mewn canolfannau siopa mawr.

(c) 'canran o werth ar y farchnad agored a chanran o drosiant'

lle y bydd eich rhent yn seiliedig ar unrhyw un o'r sefyllfaoedd yn (a) uchod a lle y cymerir canran o'r ffigur hwnnw ar ffurf rhent (yn hytrach na'r swm cyfan) a lle y bydd y brydles yn nodi bod yn rhaid i chi dalu canran o'ch trosiant i'r landlord fel rhent am eich eiddo. Fel arfer ceir eiddo o'r fath mewn canolfannau siopa mawr.

(d) 'rhent sylfaenol a chanran o drosiant' lle y pennir rhent sylfaenol/isafswm rhent fel % o werth ar y farchnad agored neu lle y bydd rhent yn seiliedig ar faint yr eiddo a lle y bydd angen i chi dalu % o'ch trosiant fel rhent ychwanegol. Efallai y bydd y brydles yn nodi bod y rhent sylfaenol yn daladwy bob amser ond dim ond pan gyrhaeddir lefel benodol o drosiant y bydd y trosiant yn ddyledus. Mae eiddo a osodir fel hyn fel arfer i'w gael mewn canolfannau siopa ffatri.

(e) 'canran o drosiant (heb unrhyw isafswm ffigur na rhent sylfaenol)' lle y bydd y rhent y byddwch yn ei dalu yn seiliedig ar y trosiant a enillir a dim byd arall.

(f) 'rhent gris' Os ydych yn gwybod ymlaen llaw sut y bydd y rhent yn newid dros y blynyddoedd tan yr adolygiad nesaf o'r rhent. Er enghraifft, rhent gris sydd gan denant sy'n gwybod heddiw y bydd ei rent yn £12000 y flwyddyn eleni, £14000 y flwyddyn y flwyddyn nesaf a £16000 y flwyddyn ddilynol.

(g) 'unrhyw sail arall' Os na chaiff eich rhent ei gyfrifo drwy unrhyw un o'r uchod. Rhowch fanylion am y ffordd y caiff eich rhent ei gyfrifo.

Rhan 7 - Eich Rhent

7.1 Rhenti sy'n seiliedig ar werth ar y farchnad agored

a) Nodwch y rhent blynyddol heb gynnwys TAW

£	
---	--

b) Y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy

Dydd	Mis	Blwyddyn

Ewch i ran 8 nawr

Rhan 7 - Nodiadau

Dylai'r holl symiau a ddangosir yn Adran7 gynnwys TAW.

Cwestiwn 7.1

(a) Anwybyddwch unrhyw gyfnod di-rent. Er enghraifft, os talwch £20000 y chwarter gyda'r tri mis cyntaf yn gyfnod di-rent, byddech yn talu £60000 yn y flwyddyn gyntaf. Ond dylech nodi cyfanswm y rhent blynyddol sef £80000.

(b) Yn y rhan fwyaf o achosion, y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy yw'r dyddiad y dechreuodd y brydles, y gallai deiliad blaenorol fod wedi bod yn gyfrifol amdano neu'r dyddiad y cafodd y rhent ei amrywio y tro diwethaf yn ystod y brydles neu'r cytundeb. Dylech anwybyddu newidiadau sydd ond yn deillio o newid ardrethi neu daliadau gwasanaethau lle y caiff y rhain eu cynnwys yn y rhent.

7.2 Rhenti sy'n seiliedig ar werth ar y farchnad agored a chanran o drosiant

- (a) Yn y tabl isod, nodwch y rhent yn seiliedig ar y gwerth ar y farchnad agored (heb unrhyw ychwanegiad trosiant) heb gynnwys TAW yn y golofn gyntaf, y rhent ychwanegol sy'n seiliedig ar % o drosiant yn yr ail golofn (mewn punnoedd) a'r flwyddyn sy'n dod i ben yn y drydedd golofn. Dylid gwneud hyn am y tair blynedd ariannol ddiwethaf (*rhaid nodi'r mis a'r flwyddyn*).

Rhent gwerth ar y farchnad agored	Ychwanegiad trosiant (£)	Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben		
		Dydd	Mis	Blwyddyn

- (b) Y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

- (c) % o drosiant a dalwyd o dan y brydles

%

- (d) % Gris/Dyddiadau Ewch i ran 8 nawr

Cwestiwn 7.2

- (a) Dylid anwybyddu cyfnodau di-rent (fel yn 7.1(a) uchod). Dylai'r ail golofn ddangos cost y rhent ychwanegol yn deillio o drosiant yn unig.
- (b) Yn y rhan fwyaf o achosion hwn fydd y dyddiad y dechreuodd y brydles, neu'r dyddiad y cafodd y rhent ei adolygu yn ystod y brydles neu'r cytundeb. Dylid anwybyddu dyddiadau adolygu sydd ar gyfer newidiadau i ardrethi/taliadau gwasanaeth yn unig.
- (c) Er enghraifft, os talwch 8% o'ch trosiant yn ogystal â'r rhent ar y farchnad agored y cytunwyd arno nodwch 8%.
- (d) Os cytunwyd ar ganran gris, nodwch y ganran a'r dyddiadau y cytunwyd arnynt.

7.3 Rhenti sy'n seiliedig ar ganran o werth ar y farchnad agored a chanran o drosiant

- (a) Yn y tabl isod, nodwch y rhent yn seiliedig ar ganran o'r gwerth ar y farchnad agored (heb unrhyw ychwanegiad trosiant) heb gynnwys TAW yn y golofn gyntaf, y rhent ychwanegol yn seiliedig ar ganran o drosiant (mewn punnoedd) yn yr ail golofn (mewn punnoedd) a'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben yn y drydedd golofn. Dylid gwneud hyn am y tair blynedd ariannol ddiwethaf (*rhaid nodi'r mis a'r flwyddyn*).

Canran o rent ar y gwerth ar farchnad y farchnad agored agored	Ychwanegiad trosiant (£)	Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben		
		Dydd	Mis	Blwyddyn

- (b) Y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

- (c) Canran o werth rhentu ar y farchnad agored a dalwyd o dan y brydles

%

- (d) % o drosiant a dalwyd dan y brydles

%

- (e) % Gris/Dyddiadau Ewch i ran 8 nawr

Cwestiwn 7.3

- (a) Dylid anwybyddu cyfnodau di-rent (fel yn 7.1(a) uchod). Canran rhent ar y gwerth ar y farchnad agored yw'r swm a dalwyd gennyh, er enghraifft: Y gwerth ar y farchnad agored yw £100000 y flwyddyn, rydych yn talu 80% ohono felly dylid nodi £80000. Dylai'r ail golofn ddangos faint o rent ychwanegol sy'n deillio o drosiant yn unig.
- (b) Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu'r dyddiad y dechreuodd y brydles, neu'r dyddiad y cafodd y rhent ei adolygu yn ystod y brydles neu'r cytundeb. Dylid anwybyddu dyddiadau adolygu sydd ar gyfer newidiadau i ardrethi/taliadau gwasanaeth yn unig.
- (c) Hon yw'r ganran a gymhwysir i'r gwerth ar y farchnad agored a nodir yn nodyn (a)
- (d) Er enghraifft, os ydych yn talu 8% o'ch trosiant yn ogystal â'r gwerth ar y farchnad agored y cytunwyd arno nodwch 8%.
- (e) cytunwyd ar ganran gris, nodwch y ganran a'r dyddiadau y cytunwyd arnynt.

7.4 Rhenti sy'n seiliedig ar rent sylfaenol a chanran o drosiant

- (a) Yn y tabl isod, nodwch y rhent sylfaenol a dalwyd yn y golofn gyntaf, y rhent ychwanegol a dalwyd fel canran o drosiant (mewn punnoedd) yn yr ail golofn a'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben yn y drydedd golofn. Dylid gwneud hyn am y tair blynedd ariannol ddiwethaf (*rhaid nodi'r mis a'r flwyddyn*).

Rhent gwerth ar y farchnad agored	Ychwanegiad trosiant (£)	Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben		
		Dydd	Mis	Blwyddyn

- (b) Y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

- (c) Canran o'r rhent sylfaenol a dalwyd o dan y brydles

%

- (d) % o drosiant a dalwyd o dan y brydles

%

- (e) % Gris/Dyddiadau Ewch i ran 8 nawr

Cwestiwn 7.4

- (a) Dylid anwybyddu cyfnodau di-rent (fel yn 7.1(a) uchod). Dylai'r ail golofn ddangos faint o rent ychwanegol a dalwyd yn deillio o'r trosiant yn unig. Os na thalwyd unrhyw ychwanegiad trosiant y flwyddyn honno, nodwch 'dim'.
- (b) Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn golygu'r dyddiad y dechreuodd y brydles, neu'r dyddiad y cafodd y rhent ei adolygu yn ystod y brydles neu'r cytundeb. Dylid anwybyddu dyddiadau adolygu sydd ar gyfer newidiadau i ardrethi/taliadau gwasanaeth yn unig.
- (c) Os cytunwyd ar rent sylfaenol sy'n is na 100% nodwch y ganran. Er enghraifft, rhent sylfaenol £100,000, cytunwyd bod 80% yn daladwy, nodwch 80.
- (d) Er enghraifft, os ydych yn talu 8% o'ch trosiant yn ogystal â'r rhent ar y farchnad agored y cytunwyd arno nodwch 8%.
- (e) Os cytunwyd ar ganran gris, nodwch y ganran a'r dyddiadau y cytunwyd arnynt.

7.5 Rhenti sy'n seiliedig ar ganran o drosiant yn unig

- (a) Canran o drosiant a dalwyd o dan y brydles. %
- (b) Nodwch swm gwirioneddol llawn y rhent a dalwyd (heb gynnwys TAW) am y tair blynedd ddiwethaf.

Blwyddyn yn dod i ben	Dydd	Mis	Blwyddyn	£
Blwyddyn yn dod i ben	Dydd	Mis	Blwyddyn	£
Blwyddyn yn dod i ben	Dydd	Mis	Blwyddyn	£

Now go to part 8

7.6 Rhenti gris

- (a) Y dyddiad y daeth y rhent yn daladwy

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------
- (b) Y rhent a dalwyd

Blwyddyn 1	£
Blwyddyn 2	£
Blwyddyn 3	£
Blwyddyn 4	£
Blwyddyn 5	£

Ewch i ran 8 nawr

Cwestiwn 7.5
(a) Er enghraifft, os ydych yn talu 25% o'ch trosiant fel rhent, nodwch 25 yn y blwch.

Cwestiwn 7.6
(a) Yn y rhan fwyaf o achosion hwn fydd y dyddiad y dechreuodd y brydles, neu'r dyddiad y cafodd y rhent ei adolygu yn ystod y brydles neu'r cytundeb. Dylid anwybyddu dyddiadau adolygu, sydd ar gyfer newidiadau i ardrethi/taliadau gwasanaeth yn unig.
(b) Yn y tabl dylid cynnwys rhenti y cytunwyd arnynt pan ddechreuodd y brydles a chodiadau mewn rhenti a oedd yn hysbys ymlaen llaw.

Rhan 8 - Beth mae'r rhent uchod yn ei gynnwys

Rhan 8 - Nodiadau

- 8.1** A ydych chi'n talu rhent am ran yn unig o'r eiddo ddangosir ar dudalen1?
Nac ydwyf Ydwyf Nodwch isod ba ran o'r eiddo rydych yn ei rhentu.
- 8.2** A yw'r rhent hwn yn cynnwys unrhyw eiddo arall na ddangosir ar dudalen1?
Nac ydwyf Ydwyf Nodwch isod yr eiddo y mae'r rhent yn ei gynnwys.
- 8.3** A yw'r rhent hwn yn cynnwys unrhyw le byw?
Nac ydwyf Ydwyf Nodwch isod ba le byw mae'r rhent yn ei gynnwys.
- 8.4** A oedd y rhent hwn yn sefydlog parthed tir yn unig?
Nac ydoedd Ydoedd A fyddech gystal â rhoi'r rhesymau isod.
- 8.5** A oedd y rhent hwn yn sefydlog parthed uned 'cragen'?
Nac ydoedd Ydoedd A fyddech gystal â rhoi manylion isod o'r holl ddodrefnu.

Os bu i chi ymateb yn bositif i unrhyw gwestiwn a fyddech gystal â rhoi manylion yma.

Cwestiwn	Manylion

Cwestiwn 8.1
Er enghraifft, llawr cyntaf yn unig, un ystafell yn unig.

Cwestiwn 8.2
Er enghraifft, eiddo gerllaw (rhowch y rhif), neu ran o'r ail llawr.

Noder Os ydych yn talu rhent am yr eiddo arall ar brydles neu gytundeb ar wahân, a fyddech gystal â gwneud yn siwr eich bod yn rhoi manylion llawn ar ffurflen arall.

Cwestiwn 8.3
Er enghraifft, fflat dros siop neu lety gofalwr.

Cwestiwn 8.4
Ticiwch 'ydoedd' os nad ydych yn talu unrhyw rent am adeiladau oherwydd, er enghraifft, nad oes unrhyw adeiladau ar y safle, neu rydych wedi codi'ch adeiladau eich hun.

Cwestiwn 8.5
Uned gragen yw uned newydd ond anorffenedig sydd angen ei dodrefnu. Mae'n rhaid i'r tenant dalu am ei chael wedi'i dodrefnu ag eitemau megis waliau mewnlol, toiledau, gwasanaethau (gwres, goleuadau ayb), neu orffeniadau (plaster, paent, carped, ayb).

Nodyn Ticiwch 'Nac ydoedd' os oedd yr eiddo mewn cyflwr gwael pan gymerasoch ef ymlaen. Nid uned gragen wirioneddol yw hon.

9.1 A roddwyd i chi gyfnod di-rent pan gyflwynwyd y brydles neu'r cytundeb?

Naddo Ewch i Gwestiwn 9.2

Yes Am ba mor hir oedd y cyfnod di-rent?

Blynyddoedd	Misoedd
-------------	---------

Paham y rhoddwyd i chi'r cyfnod di-rent?
Er enghraifft, ar gyfer atgyweiriadau neu fân ddodrefnu oedd eu hangen.

9.2 A fu i chi dalu swm cyfalaf parthed y brydles hon neu'r cytundeb hwn?

Naddo

Do Swm £

Dyddiad

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

9.3 A fu i chi dderbyn swm cyfalaf parthed y brydles hon neu'r cytundeb hwn?

Naddo

Do Swm £

Dyddiad

Dydd	Mis	Blwyddyn
------	-----	----------

Rhan 10 - Cyfrifoldebau a chostau

10.1 Pwy sy'n gyfrifol am y costau canlynol?

	Landlord	Tenant
Atgyweiriadau allanol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Atgyweiriadau mewnol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yswiriant yr adeilad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

10.2 A yw'r rhent yn cynnwys unrhyw ran o'r costau canlynol?

	Nac ydyw	Ydyw
Trethi an-nomestig	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Costau dwr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwasanaethau (er enghraifft goleuo, gwresogi, glanhau/ cynnal a chadw ardaloedd gaiff eu rhannu)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os bu i chi dicio'n gadarnhaol ar gyfer unrhyw eitem, a fydddech gystal â rhoi manylion yma.

Gwasanaeth

Swm a gynhwysir yn flynyddol yn y rhent (heb gynnwys TAW)

Cwestiwn 9.1

Cyfnod di-rent yw adeg, yn aml ar ddechrau brydles neu gytundeb, pan na fydd yn rhaid i'r tenant dalu rhent. Fe allai gael ei roi i denant i fân ddodrefnu neu atgyweirio'r eiddo.

Cwestiwn 9.2

Ticiwch 'Do' os ydych yn talu swm o arian i

- y perchennog i gymryd y brydles neu gytundeb, neu
- n i denant blaenorol i brynu'r brydles neu gytundeb oddi wrtho

Nid yw hwn yn cynnwys unrhyw swm y taloch am y busnes ei hyn ond yn hytrach am y brydles neu'r cytundeb.

Er enghraifft peidiwch â chynnwys unrhyw swm a daloch am ewyllys da, neu fan daclau a gosodion masnach. Ni ddylech chwaith gynnwys unrhyw swm a dalwyd yn unig am flaendaliadau dychweladwy neu fondiau.

Rhan 10 - Nodiadau

Cwestiwn 10.1

Ticiwch 'landlord' os yw'r landlord yn talu'r biliau'n uniongyrchol ar gyfer yr eitem hon heb ofyn am unrhyw gyfraniad oddi wrthyd chi.

Ticiwch 'tenant' os ydych chi (a'r tenantiaid eraill os oes mwy nag un)

- yn talu'r biliau'n uniongyrchol ar gyfer yr eitem hon, neu
- pay the landlord an amount, such as a service charge, to cover the costs of this item.

Noder Nid yw atgyweirio yn cynnwys addurno. Os oes gofyn i chi addurno ac nid trwsio, peidiwch â thicio bod atgyweiriadau allanol a mewnol yn gyfrifoldeb i chi.

Ticiwch y ddau fiwch os ydych chi a'r landlord yn rhannu'r cyfrifoldeb ar gyfer yr eitem hon.

Cwestiwn 10.2

Ticiwch 'nac ydyw' os

- n ydych chi neu'r landlord yn talu am yr eitem hon yn uniongyrchol, neu
- n eich bod chi'n talu tâl gwasanaeth ar wahân sy'n cynnwys y gost hon.

Ticiwch 'ydyw' os yw'r eitem hon yn cael ei chyflenwi yn y rhent ddangosir yng nghwestiwn 3.1.

Rhan 11 - Parcio yn yr eiddo neu ar bwys yr eiddo

Rhan 11 - Nodiadau

A fydddech gystal â llanw i mewn yr holl fflychau â rhif, gan roi 'dim' os yw'n briodol.

11.1 Sawl man parcio neu sawl garej gynhwysir yn y rhent ddangosir yng nghwestiwn 7?

Mannau agored	Mannau dan do	Garejys
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

11.2 Sawl man parcio neu sawl garej rydych chi'n talu rhent ar wahân amdano/i?

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------

a. Tâl blynyddol (*heb gynnwys TAW*)

£

b. Pryd osodwyd y taliad?

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Rhan 12 - Newidiadau a gwelliannau

Rhan 12 - Nodiadau

12.1 A ydych chi neu feddiannwr blaenorol wedi cyflawni unrhyw newidiadau mawr, unrhyw welliannau, adnewyddiadau, mân ddodrefnu cychwynnol neu atgyweiriadau cychwynnol i'r eiddo?

Nac ydyf Ewch i Ran 13.

Ydyf A fydddech gystal â rhoi manylion.

Gwaith gyflawnwyd

Dyddiad bras a chost y gwaith gyflawnwyd

£

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

£

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

£

Dydd	Mis	Blwyddyn
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

12.2 A oes/oedd disgwyl i chi neu feddiannwr blaenorol gyflawni unrhyw waith fel amod y brydles gyfredol neu'r cytundeb cyfredol? Nac oedd Oedd

Cwestiwn 12.2

Os oes gennych chi brydles neu gytundeb ysgrifenedig, bydd yn nodi a orfodir chi gan eich landlord i gyflawni unrhyw rai o'r tasgau rydych wedi'u crybwyll yng nghwestiwn 12.1. Os felly, daw'r tasgau hyn yn amod y brydles neu'r cytundeb.

Ticiwch 'nac ydyf' os

- cyflawnwyd gwaith yn wirfoddol ac ni nodwyd hynny yn y brydles neu'r cytundeb, neu
- ni chyflawnwyd unrhyw waith.

Ticiwch 'ydyf' os

- bu'n rhaid gwneud y gwaith am fod y brydles neu'r cytundeb yn nodi hynny.

Rhan 13 - Unrhyw ffactorau eraill

Rhan 13 - Nodiadau

A oes unrhyw ffactorau eraill sydd wedi effeithio'r rhent sy'n daladwy?

Nac oes Ewch i Ran 14.

Oes A fydddech gystal â rhoi manylion isod.

Er enghraifft, gallai'r rhent fod yn wahanol i rent y farchnad am un o'r rhesymau hyn.

- Mae'r defnydd ganiateir i'r eiddo yn gyfyngedig.
- Mae cymal rhannu yn y brydles neu'r cytundeb. Cymalau rhannu yw achlysuron nodir yn benodol yn y brydles neu'r cytundeb pan allai'r tenant gael y cyfle i adael yr eiddo neu fe allai'r landlord ofyn i'r tenant adael.
- Mae cymal ymryddhau o gytundeb Rhan 11 Deddf Landlord a Tenant 1954. Mae'n rhaid i landlord fynd i'r llys ar ddechrau prydles newydd i ymryddhau o gytundeb y Ddeddf hon. Os gwna hynny, mae'r tenant yn colli'i hawl i gael prydles neu gytundeb newydd pan fydd y brydles bresennol neu'r cytundeb presennol yn terfynu.
- Rydych yn talu rhent am osodion masnach a mân daclau mae'ch landlord wedi'u darparu.

Rhan 14 - Eiddo a osodir ac a isosodir

A ydych chi'n gosod neu'n isosod yr holl eiddo neu unrhyw ran ohono?

Nac ydwyf Ewch i Ran 15

Ydwyf A fydddech gystal â rhoi manylion isod

Tenant	Enw llawn		
	Cyfeiriad		
	Côd post		
Gosod yn rhannol			
Defnydd			
Rhent Blynnyddol	£	Dyddiad a osodir	Dydd Mis Blwyddyn

Rhan 14 - Nodiadau

Gallai rhannau osodir allan o'r eiddo gynnwys, er enghraifft

- ardaloedd ddefnyddir gan fusnesau eraill
- fflatiau
- hysbysfyrddau
- mastiau ffôn symudol.
- garejys a llefydd parcio ceir.

Os oes gennych fwy nag un cytundeb isosod/gosod, a fydddech gystal â darparu'r wybodaeth hon ar gyfer pob un ohonynt ar ddalen ar wahân, ac arwyddwch a rhowch y dyddiad arni.

Rhan 15 - Datganiad

Cwblhewch ym MHOB achos

Rhan 15 - Nodiadau

Hyd y gwn ac y credaf i mae'r wybodaeth rwyf wedi ei rhoi yn y ffurflen hon ac mewn unrhyw atodiadau yn gywir ac yn gyflawn.

Llofnod			
Enw mewn PRIF LYTHRENNAU			
Dyddiad	Dydd	Mis	Blwyddyn
Safle			
Fi yw			
Deiliad	<input type="checkbox"/> Perchennog	<input type="checkbox"/> Prydlesai	<input type="checkbox"/>
Asiant y Deiliad	<input type="checkbox"/> Asiant y Perchennog	<input type="checkbox"/> Asiant y Prydlesai	<input type="checkbox"/>
Rhif ffôn yn ystod y dydd			
Cyfeiriad e-bost			

Os ydych yn arwyddo ar ran busnes, a fydddech gystal â rhoi'ch safle. Er enghraifft, partner neu gyfarwyddwr.

Rhan 16 - Manylion cyswllt

Rhan 16 - Nodiadau

Petaech yn dymuno i ni gysylltu â rhywun arall os oes gennym unrhyw gwestiynau ynghylch y ffurflen hon, a fydddech gystal â rhoi eu manylion yma.

Enw mewn PRIF LYTHRENNAU	
Rhif ffôn yn ystod y dydd.	
Cyfeiriad e-bost	
Cyfeiriad gohebiaeth	

Os ydych yn dymuno i ni gysylltu â rhywun arall, er enghraifft, eich prif swyddfa neu'ch adran ystadau, neu asiant argadwedig, rhowch fanylion llawn os gwelwch yn dda.

Dychwelwch y ffurflen i: Valuation Office Agency, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham DH1 3UW **neu os yw'n cwblhau'n ddigidol**, cadwch y PDF a'i ddychwelyd fel atodiad e-bost i specialist.rating@voa.gov.uk

Gwybodaeth Neu Sylwadau Pellach (os oes rhai)

Rhowch fanylion pellach yma os nad oes digon o le i orffen yr atebion i'r cwestiynau uchod neu os oes angen esboniad neu eglurhad pellach i unrhyw gwestiynau.

Rhif Cwestiwn	Gwybodaeth/Sylwadau pellach
	<p data-bbox="327 2063 1158 2096">Llenwch y datganiad ar dudalen 9 cyn dychwelyd yr hysbysiad hwn ataf.</p>